# Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

amgueddfa cymru
national museum wales



## Gwybodaeth gefndir



Agorodd y pwll fel amgueddfa annibynnol ym 1983 cyn dod yn rhan o Amgueddfa Cymru yn 2001.

Cwblhawyd project ailwampio gwerth £7.1 miliwn yn Big Pit yn 2006, ac enillodd wobr Amgueddfa'r Flwyddyn y DU gan Gulbenkian yn yr un flwyddyn.

## Beth welwn ni yno?

Yn Big Pit adroddir hanes y diwydiant glo a’i effaith ar y Gymru fodern.

Dan arweiniad cyn lowr, mae’r daith 50 munud danddaear yn rhoi cipolwg i ymwelwyr ar y ffas lo. Bydd y glowr yn adrodd hanes y diwydiant glo yng Nghymru ac yn rhannu ei brofiadau personol er mwyn dysgu a diddanu.

Ymhlith adeiladau gwreiddiol y pwll mae tŷ’r injan weindio, gweithdy’r gof, tŷ’r ffan a’r stablau, ac ym mhob adeilad, ceir esboniad o’i ddefnydd gwreiddiol.

Y Baddondai Pen Pwll yw lleoliad prif arddangosfeydd yr Amgueddfa.

Yn yr Orielau Glofaol caiff ymwelwyr y cyfle i weld peiriannau glofaol mawr yn eu cyd-destun, gan fynd ar daith drwy efelychiad o leoliad tanddaearol gyda glöwr rhithwir.

## Pa stori ydym ni’n ei hadrodd?

Mae amgueddfa Big Pit yn dangos y newidiadau a’r gwelliannau yn y dechnoleg a bywyd cymdeithasol yn ardaloedd glofaol Cymru rhwng dechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg a diwedd yr ugeinfed ganrif.

Yn yr Orielau Glofaol a’r Baddondai Pen Pwll, mae arddangosfeydd yn dangos sut y newidiodd y gwaith o dorri’r glo, o un dyn â mandrel (caib) i offer hydrolig gwerth miliynau o bunnoedd.








# Arddangosfa'r Baddondai Pen Pwll:

Mae arddangosfa'r Baddondai Pen Pwll yn dangos:

- sut y newidiodd iechyd a diogelwch y glöwr o gap meddal a mwffler dros y geg i ddillad llachar a thechnoleg systemau rheoli llwch
- sut lleihaodd datblygiadau diogelwch y perygl i gannoedd o ddynion gael eu lladd mewn un ffrwydrad
- sut y cafodd bywydau'r gwragedd eu gweddnewid gan y baddondai pen pwll, gan nad oedd yn rhaid paratoi baddonau a golchi dillad yn y cartref
- sut y newidiodd meddylfryd yr hen berchnogion pyllau o elw cyn pobl wedi gwladoli'r diwydiant ym 1947, a'r datblygiadau technolegol oedd ynghlwm â hyn
- sut y gwellwyd cyflogau ac amodau'r diwydiant glo gan gydweithredu ac undebau llafur.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.amgueddfacymru.ac.uk/bigpit/addysg**




